# Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**2014 dccc 3**

## 6 Cofnod o'r ceffylau yr ymdriniwyd â hwy

(1) Rhaid i awdurdod lleol gadw cofrestr o'r holl geffylau y mae wedi ymafael ynddynt o dan adran 2.

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys, mewn perthynas â phob ceffyl—

- (a) disgrifiad byr o'r ceffyl,
- (b) datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd ynddo,
- (c) datganiad ynghylch pryd y cafodd ei gadw, a
- (d) manylion y camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw ei berchennog,

ac, os yw'r ceffyl wedi ei waredu o dan adran 5, manylion y modd y'i gwaredwyd.

(3) Rhaid i'r gofrestr fod yn agored i'r cyhoedd ei gweld (p'un ai yn bersonol neu ar y rhyngrwyd) ar bob adeg resymol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 mewn grym ar 28.1.2014, gweler **a. 10(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014, Adran 6.